

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad Blynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran newid hinsawdd, 2019-20

Rhagfyr 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Blynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran newid hinsawdd, 2019-20

Rhagfyr 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru

Cynnwys

Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd.....	9
Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018.....	9
Cynnydd ar leihau allyriadau.....	10
Adroddiad cynnydd PDUNH 2018.....	10
Adroddiad cynnydd PDUNH 2019.....	10
Ein barn ni.....	13
Argymhellion.....	16
3. Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel.....	17
Costau sy'n deillio o'r cynllun.....	17
Ymgysylltu.....	19
Grŵp Cyfiawnder Hinsawdd a newid ymddygiadol.....	20
Ein barn ni.....	22
Argymhellion.....	23
4. Sero-net erbyn 2050.....	23
Datganiad o argyfwng hinsawdd.....	23
Cyngor PDUNH ar dargedau diwygiedig 2050.....	24
Costau cyflawni'r targed sero-net.....	25
Ein barn ni.....	29
Argymhellion.....	30

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi, cyn gynted â phosibl, y cyngor y mae wedi'i gomisiynu gan PDUNH ar ei dyhead i gyrraedd sero-net erbyn 2050.....Tudalen 16

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi manylion am yr amserlen ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio targedau 2050 a thargedau interim.Tudalen 16

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori â'r Cynulliad, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar gyllidebau carbon a rheoliadau cysylltiedig yn y dyfodol. Ni ddylid defnyddio diffyg gofyniad penodol i ymgynghori yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel rheswm dros beidio â gwneud hynny.Tudalen 16

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i PDUNH wahanu data ar ostwng allyriadau Cymru yn ôl meysydd datganoledig a meysydd heb eu datganoli. Dylai PDUNH fabwysiadu'r dull gweithredu hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.....Tudalen 16

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 6 mis ar sut y bydd yn mynd i'r afael â'r datgysylltiad yn yr amserlenni ar gyfer cyllidebau carbon ac adroddiadau ynghylch a fyddant yn cael eu bodloni. Dylai ddatblygu ei dull gweithredu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid.....Tudalen 16

Argymhelliad 6. Dylai Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru esbonio a dangos yn glir sut y bydd dyraniadau cyllid yn cefnogi'r flaenoriaeth datgarboneiddio.Tudalen 23

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru wneud darn o waith ar wahân, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, i asesu sut y gellid gwella ei hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd mewn pryd ar gyfer datblygu'r iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio.....Tudalen 23

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio a dylai gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno.....Tudalen 23

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad yn esbonio effaith y cynnydd yn y targed lleihau allyriadau 2050, o 80 y cant i 95 y cant, ar ei hamcanestyniadau a'i pholisïau. Dylai wneud hynny pan fydd yn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i newid y targedau. Tudalen 30

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o gostau, manteision ac effaith pob polisi a chynnig ar ddatgarboneiddio sydd yn yr iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio. Tudalen 30

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dull, megis asesiad effaith carbon, i adrodd i'r Cynulliad am benderfyniadau polisi a fydd yn arwain at gynydd sylweddol mewn allbwn carbon. Tudalen 30

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad na fydd yn allyrru ar y môr. Dylai ymrwymo y bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn flynyddol am unrhyw allyru ar y môr a wneir gan Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus neu awdurdodau lleol. Tudalen 30

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru drafod a oes gwerth sicrhau bod y data modelu a gynhyrchir drwy ddefnyddio offeryn Cyfrifiannell 2050 Cymru ar gael dan drefniadau ffynhonnell agored. Tudalen 30

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei dogfen sy'n cynnwys manylion am y camau y mae wedi'u cymryd ers datgan argyfwng hinsawdd. Tudalen 30

1. Cyflwyniad

1. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ei ddull craffu ar newid hinsawdd ar gyfer y Pumed Cynulliad. Byddai'r dull hwn yn cynnwys y canlynol:

- Gwaith craffu blynyddol ar y Gweinidog neu'r Gweinidogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru;
- Cyhoeddi adroddiad o sesiynau craffu blynyddol o'r fath a dadl yn y Cyfarfod Llawn wedi hynny;
- Gwaith craffu ad hoc. Er enghraifft, os oes newidiadau neu ddatblygiadau polisi arwyddocaol a gaiff effaith ar sectorau allweddol;
- Gwaith craffu ar ôl deddfu yn unol â'r cerrig milltir allweddol o ran gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Ystyried sut y mae deddfwrfeydd eraill y DU yn gwneud gwaith craffu ym maes newid hinsawdd;
- Cydgysylltu â Phwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (PDUNH) a chroesawu proses briodol o gyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

2. Dyma ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gynnydd Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd. Ffocws gwaith y Pwyllgor yn ystod 2019 fu cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, sef "Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel".

3. Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad gyda rhanddeiliaid ar 4 Gorffennaf i drafod y cynllun. Clywodd gyflwyniad¹ gan Dr Filippus Proedrou, cymrawd academiaidd o Brifysgol De Cymru, ar 26 Mehefin ynghylch "Yn mynd i'r afael â'r bwllch yn y polisi hinsawdd yng Nghymru".

¹ <http://senedd.cynulliad.cymru/ie/ListDocuments.aspx?CId=444&MId=5510&Ver=4>

4. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n dod, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, dan bortffolio Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Mae gwaith y Pwyllgor wedi'i lywio gan sesiynau craffu gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 10 Gorffennaf ac 20 Tachwedd 2019.

5. Mae [gwefan y Pwyllgor](#) yn cynnwys hyperlincs i'r holl ddogfennau, cyfarfodydd a phenderfyniadau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad hwn.²

² <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?Ild=25690&Opt=2>

2. Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd

6. Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad blynyddol cyntaf, sef “Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd”³, ym mis Mai 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 19 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys gwella cydweithio ar draws Llywodraeth Cymru ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Roedd yr adroddiad hefyd yn ymdrin â sawl maes pwnc penodol, megis plannu coed, trafndiaeth a rheoliadau adeiladu.

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018

7. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (y Ddeddf) yn gosod dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru i leihau allyriadau, gan gynnwys gofyniad i sicrhau bod allyriadau net ar gyfer 2050 o leiaf 80 y cant islaw'r waelodlin (1990). Mae'r Ddeddf yn gosod sawl dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau y caiff targed 2050 ei gyrraedd.

8. Ym mis Rhagfyr 2018, cymeradwyodd y Cynulliad Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018, a nododd y targedau allyriadau interim a ganlyn:

- Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2020 yw 27% islaw'r waelodlin;
- Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2030 yw 45% islaw'r waelodlin;
- Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2040 yw 67% islaw'r waelodlin;

9. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu “cyllideb garbon” (uchafswm ar gyfer allyriadau net Cymru) ar gyfer pob cyfnod cyllidebol pum mlynedd. Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau

³ <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=15122>

Carbon) (Cymru) 2018, a dderbyniwyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr, yn gosod y ddwy gyllideb garbon gyntaf.

- Ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2016 i 2020, mae'r gyllideb garbon wedi ei chyfyngu i gyfartaledd o 23% yn is na'r waelodlin;
- Ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2021 i 2025, mae'r gyllideb garbon wedi ei chyfyngu i gyfartaledd o 33% yn is na'r waelodlin.

10. Cafodd y targedau allyriadau interim a'r cyllidebau carbon a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad eu llywio gan gyngor gan PDUNH.

Cynnydd ar leihau allyriadau

Adroddiad cynnydd PDUNH 2018

11. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd PDUNH ei adroddiad i Senedd y DU ar y cynnydd o ran lleihau allyriadau'r DU⁴. Tynnodd yr adroddiad sylw at ostyngiad 43 y cant o lefelau 1990 mewn allyriadau carbon ar gyfer y DU gyfan. Deilliodd y rhan fwyaf o'r gostyngiadau allyriadau o effeithlonrwydd cynyddol y sector pŵer, a oedd wedi cyflawni 75 y cant o ostyngiadau allyriadau ers 2012. Roedd lefelau allyriadau'r DU mewn sectorau eraill wedi aros yn gyson ar y cyfan.

12. O'u cymharu â lefelau 1990, roedd allyriadau Cymru wedi gostwng 14 y cant. Roedd cyfradd is y gostyngiad yng Nghymru wedi bod oherwydd cynnydd yn y galw am bŵer, gydag allyriadau'r sector pŵer yn dangos twf 21 y cant rhwng 2009 a 2016.

Adroddiad cynnydd PDUNH 2019

13. Nododd Adroddiad Cynnydd 2019 PDUNH i'r Senedd fod allyriadau yng Nghymru wedi gostwng 13 y cant yn 2017. Roedd hyn yn golygu bod allyriadau, erbyn hynny, 25 y cant yn is na lefelau 1990.

⁴ www.theccc.org.uk/publication/reducing-uk-emissions-2018-progress-report-to-parliament/

- 14.** Y prif sbardun dros y gostyngiad oedd cwmp mewn allyriadau o'r sector pŵer. Cwmpodd allyriadau o'r sector pŵer 36 y cant, oherwydd gostyngiadau mawr mewn allyriadau o lo (-62 y cant) a nwy (-17 y cant).
- 15.** Cwmpodd allyriadau o ddiwydiant yng Nghymru 2 y cant. Er gwaethaf hyn, yn ôl adroddiad 2019, roedd diwydiant wedi goddiweddyd y sector pŵer fel y sector allyrru mwyaf yng Nghymru. Roedd yn gyfrifol am 32 y cant o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- 16.** Nododd adroddiad cynnydd PDUNH fod y gyllideb garbon ar gyfer 2016-2020 yn gofyn gostyngiad 23 y cant, ar gyfartaledd, ar lefelau 1990 rhwng 2016 a 2020. Yn 2016 a 2017, y gostyngiad cyfartalog oedd 20 y cant. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai'n anodd iawn cyflawni'r gyllideb garbon oni bai bod allyriadau'r sector pŵer yn parhau i fod yn llawer is na 2016. Dywedodd y canlynol:
- “Data from the EU ETS indicate that emissions from fuel combustion in the traded sector in Wales fell by a further 20% in 2018 from 2017. If Wales can maintain this progress it will be on track to meet its first carbon budget.”⁵
- 17.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, dywedodd y Gweinidog fod Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd targed 2020. Cyfeiriodd at adroddiad cynnydd 2018 PDUNH a nododd ei fod yn dangos bod Cymru wedi gwneud y cynnydd mwyaf o'r holl wledydd yn y DU gyfan. Cydnabu fod y rhan fwyaf o'r cynnydd wedi bod yn y sector pŵer.
- 18.** Dywedodd y Gweinidog ei bod yn hyderus y byddai targed 2020 yn cael ei gyrraedd pe bai'r cynnydd yn parhau yn y sector pŵer. Esboniodd fod newidiadau yn y sector pŵer yn cael eu sbarduno i raddau helaeth gan Lywodraeth y DU, a pholisi'r UE hefyd. O ganlyniad, dywedodd y byddai'n pwysu ar Lywodraeth y DU, oherwydd bod ganddi rôl enfawr wrth ein helpu i gyrraedd y targedau.
- 19.** O ran y gwersi a ddysgwyd yn ystod ei gyllideb garbon gyntaf, dywedodd y Gweinidog nad oedd newid hinsawdd a datgarboneiddio ar agenda pawb yn

⁵ Tudalen 34, Adroddiad Cynnydd 2019 i Senedd y DU (Saesneg yn unig) | Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, Cyhoeddwyd ar 10 Gorffennaf 2019

2016 pan wnaethant ddechrau'r gyllideb garbon hon. Dywedodd y bu gwelliant sylweddol mewn cyfnod byr, a oedd yn cynnwys gosod datgarboneiddio fel 6ed flaenoriaeth yn ei Raglen Lywodraethu a sefydlu is-bwyllgor Cabinet sy'n canolbwyntio ar y mater. Tynnodd y Gweinidog sylw at feysydd polisi eraill, megis y cynllun gweithredu economaidd, lle roedd yn amlwg bod datgarboneiddio wedi cael sylw amlycach.

20. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl i'r cynllun carbon isel nesaf adeiladu ar hyn. Ychwanegodd fod y Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir ei fod am iddo fod yn gynllun Cymru gyfan; nid yw am iddo fod yn gynllun Llywodraeth Cymru yn unig. Byddai hyn yn golygu ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid. Ychwanegodd y canlynol:

“we've been on a change of culture, but it's now about extending that. I think there are a lot of lessons to learn. Technologies and innovations are changing all the time. All the evidence we look at is peer-reviewed. I think we collaborate in a much more inclusive way. So, of course, there will be improvements in the second plan, and, as you say, probably by the time we come to a third plan there will be more improvements.”

21. Cyfeiriodd y Gweinidog at ei gwaith ymgysylltu hi a'i swyddogion â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU. Siaradodd yn gadarnhaol am Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ond dywedodd ei bod wedi bod yn anodd iddi gael ymgysylltiad ystyrlon gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

22. Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd perthynas gynhyrchiol ag adrannau Llywodraeth y DU. Byddai hyn yn arbennig o bwysig yn sgil yr heriau sy'n deillio o Brexit. Dywedodd y canlynol:

“If you think about the EU emissions trading system, for instance—we're going to need a UK one. I wouldn't be being honest if I said it was great. It's not been great. I think at an official level it's better, but not at a ministerial level.”

23. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog fod y diffyg ymgysylltiad hwn â'r Adran BEIS wedi dod yn arbennig o amlwg yn ystod

trafodaethau am gynllun olynol posibl i System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS). Dywedodd y canlynol:

“I think it's the UK Government and officials not fully understanding, perhaps, the devolution settlement, and not fully understanding that actions that they may take within their devolved competence has an effect on our ability to discharge our devolved competence. That's been a journey on EU ETS, but there's been a coming together on both sides and that relationship is improving at a rate of knots.”

24. Dywedodd y swyddog fod y cynllun olynol posibl i System Masnachu Allyriadau'r UE yn hynod bwysig i'n proffil allyriadau, oherwydd bod bron 60 y cant o'n hallyriadau yn dod dan y sector masnachu – y System Masnachu Allyriadau ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt. Awgrymodd y swyddog y canlynol:

“the ambition is to have a linked emissions trading scheme, preferably with the EU. So, a lot of work is going on in the background, lots of technical work. As I mentioned earlier on, we have commissioned the UK CCC to look at how the trajectory of the cap, which decreases over time, might impact on the competitiveness of UK businesses, and we've asked for all Wales businesses to be included specifically within that as a set of their own. So, it's moving along.”

Ein barn ni

Rydym yn croesawu adroddiad diweddaraf PDUNH ar y cynnydd tuag at gyrraedd targed 2020.

Rydym hefyd yn croesawu cais Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â llywodraethau eraill y DU, am ragor o gyngor ynghylch y potensial i gyrraedd targed gostyngiad 95 y cant mewn allyriadau erbyn 2050.

Fodd bynnag, dylid nodi bod Llywodraeth Cymru, mor ddiweddar â mis Rhagfyr 2018, wedi cyflwyno cynigion ar gyfer gostyngiad 80 y cant yn unig mewn allyriadau erbyn 2050. Dyma'r targed lleiaf oll a ganiateir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Nid oedd y targed a ffefrir yn ddigonol i fodloni nodau Cytundeb Paris. Mynegodd y Pwyllgor hwn a llawer o randdeiliaid siom ynghylch hyn ar y pryd, ond parhaodd Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i

chynigion. Beth bynnag, rydym yn croesawu camau diweddarach Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod am fynd ymhellach na'i tharged newydd, sef gostyngiad allyriadau 95 y cant a'i bod yn dyheu am gyrraedd sero-net erbyn 2050. Fodd bynnag, mae PDUNH wedi dweud na allai gyrraedd nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050 yn ôl y ddealltwriaeth bresennol. Byddai'n esgeulus i'r Pwyllgor hwn beidio ag amau pa mor ymarferol y byddai gwireddu'r "dyhead" hwn. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cyngor PDUNH ar y dyhead sero-net a'i rannu â'r Cynulliad pan ddaw i law.

Pan holwyd y Gweinidog ynghylch pryd roedd yn bwriadu cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio targed 2050 a'r targedau interim perthnasol, dywedodd wrthym y byddai hyn yn digwydd yn 2020. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o fanylion gan y Gweinidog ar amserlen y ddeddfwriaeth hon.

Yn ein hadroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 (Tachwedd 2018), gwnaethom argymhell y "Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiynau drafft o gyllidebau carbon a Rheoliadau cysylltiedig yn y dyfodol a dylid hefyd ymgynghori arnynt gyda rhanddeiliaid". Gwrthodwyd hyn gan Lywodraeth Cymru, a ddywedodd nad oedd Deddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar gyllidebau carbon. Mae hyn yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn atal Llywodraeth Cymru rhag ymgynghori â rhanddeiliaid nac yn cyfyngu ar hynny. Rydym yn credu y byddai'n arfer da gwneud hynny er budd didwylledd a thryloywder. Mae clywed Llywodraeth Cymru yn dadlau yn erbyn cynnal ymgynghoriad o'r fath yn ddrislyd.

Dywedodd PDUNH yn ei Adroddiad Cynnydd yn 2019 fod y targed 95 y cant erbyn 2050 yn amodol ar Lywodraeth y DU yn mabwysiadu ein targed nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050 a argymhellir. Ni ellir cyflawni targed gostyngiad 95 y cant yng Nghymru drwy bolisi datganoledig yn unig a bydd yn golygu bod angen datblygu polisiau ledled y DU a pholisiau datganoledig yn sylweddol. Os na fydd y DU yn ymrwymo i darged nwyon tŷ gwydr sero-net ar gyfer 2050, efallai y bydd angen i Cymru osod targed llacach.

Mae cyfran sylweddol o allyriadau Cymru (bron 60 y cant yn 2016) yn dod o feysydd polisi heb eu datganoli. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod

yn fwy gonest ynghylch terfynau ei heffaith bosibl ar ostyngiadau allyriadau Cymru. Nid yw hyn yn ymwneud ag osgoi atebolrwydd, ond y gwrthwyneb. Dylai etholwyr Cymru allu deall llwyddiannau a methiannau Llywodraeth Cymru yn llawnach. Hefyd, dylent allu dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif am ei pherfformiad mewn meysydd heb eu datganoli.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n amlwg bod perthynas effeithiol â Llywodraeth y DU yn hynod bwysig. Roeddem yn siomedig o glywed sylwadau'r Gweinidog am rai o adrannau Llywodraeth y DU, ond rydym yn croesawu'r arwydd o welliannau diweddar.

O ystyried bod Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar effeithiolrwydd polisiâu Llywodraeth y DU er mwyn cyrraedd ei thargedau, mae angen iddi esbonio beth y bydd yn ei wneud os bydd polisi Llywodraeth y DU yn newid sy'n bygwth ei gallu i gyrraedd ei thargedau.

Yn ein hadroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 (Tachwedd 2018), gwnaethom argymhell y "Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU sicrhau bod ei adroddiadau ar gynnydd i leihau allyriadau wedi'u dadansoddi yn ôl meysydd polisi datganoledig a heb eu datganoli". Derbyniwyd yr argymhelliad hwn. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i PDUNH fabwysiadu'r dull gweithredu hwn cyn gynted â phosibl.

Fel y gwnaethom ddweud yn ein hadroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 (Tachwedd 2018), "Pan fydd trydedd gyllideb garbon Cymru yn cael ei phennu yn 2020, ni fydd y Cynulliad yn gwybod p'un a fydd y gyllideb garbon gyntaf neu'r ail wedi'u cyflawni. Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o bennu cyllidebau carbon ymlaen llaw, ond serch hynny rydym yn teimlo bod hyn yn dangos diffyg yn y broses". Rydym yn parhau i bryderu bod y dull gweithredu hwn yn cyfyngu ar waith craffu a dylanwad y Cynulliad a rhanddeiliaid. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru edrych ar y mater hwn eto a chyflwyno cynigion i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi, cyn gynted â phosibl, y cyngor y mae wedi'i gomisiynu gan PDUNH ar ei dyhead i gyrraedd sero-net erbyn 2050.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi manylion am yr amserlen ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio targedau 2050 a thargedau interim.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori â'r Cynulliad, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar gyllidebau carbon a rheoliadau cysylltiedig yn y dyfodol. Ni ddylid defnyddio diffyg gofyniad penodol i ymgynghori yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel rheswm dros beidio â gwneud hynny.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i PDUNH wahanu data ar ostwng allyriadau Cymru yn ôl meysydd datganoledig a meysydd heb eu datganoli. Dylai PDUNH fabwysiadu'r dull gweithredu hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 6 mis ar sut y bydd yn mynd i'r afael â'r datgysylltiad yn yr amserlenni ar gyfer cyllidebau carbon ac adroddiadau ynghylch a fyddant yn cael eu bodloni. Dylai ddatblygu ei dull gweithredu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid.

3. Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel

25. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun datgarboneiddio cyntaf, sef Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel⁶, sy'n nodi sut y bydd Cymru yn bodloni ei chyllideb garbon gyntaf (2016-2020) a tharged allyriadau interim 2020. Mae'r cynllun yn cynnwys 76 o bolisiau presennol a 24 o gynigion polisi newydd sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r UE. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hail gynllun cyflawni carbon isel yn 2021.

26. Pan ymddangosodd y Gweinidog gerbron y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf, esboniodd fod y cynllun yn cynnwys polisiau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cymru a Llywodraeth y DU, ac yn ystyried materion a oedd wedi'u hymgorffori ym mholisiau'r UE. Pwysleisiodd y Gweinidog fod yr iteriad hwn o'r cynllun yn berthnasol i gyllideb garbon gyntaf Llywodraeth Cymru yn unig, er ei fod yn cynnwys polisiau a chynigion tymor hwy. Esboniodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl i'r 76 o bolisiau presennol fod yn ddigonol i gyflawni'r gostyngiadau a nodwyd yn y gyllideb garbon gyntaf. Roedd polisiau nad ydynt wedi'u cyflwyno eto wedi'u cynnwys hefyd oherwydd bod angen iddynt ddechrau cyflwyno mwy o bolisiau a chynigion ar gyfer yr ail gyllideb a dyna pam mae polisiau tymor hwy wedi'u cynnwys er mwyn dangos sut y byddwn yn datblygu cyllidebau a thargedau yn y dyfodol".

Costau sy'n deillio o'r cynllun

27. Beirniadwyd y cynllun gan nifer o randdeiliaid am hepgor costau ar gyfer y cynigion a'r polisiau. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Gynllun 10 Pwynt i Ariannu Argyfwng Hinsawdd Cymru⁷. Yn y datganiad i'r wasg yn cyd-fynd â'r cynllun, dywedodd y Comisiynydd y canlynol:

⁶ <https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-carbon-isel-cymru>

⁷ https://futuregenerations.wales/cy/resources_posts/cynllun-10-pwynt-i-ariannu-argyfwng-hinsawdd-cymru/

“Mewn cyllidebau cynharaf a chyfredol mae gwariant Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhyw 1% ar ddatgarboneiddio sydd ymhell o fod yn ddigon i ariannu'r heriau a gyflwynir gan argyfwng hinsawdd.”

28. Mae cynllun y Comisiynydd yn awgrymu mai £991 miliwn ddylai fod cyfanswm y buddsoddiad mewn datgarboneiddio sydd ei angen yng Nghymru ar gyfer cyfnod cyllidebol 2020-21. Dywedodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

“Mae ar lawer o'r camau angen ymrwymiad a buddsoddiad cyson hirdymor oddi wrth y Llywodraeth ond mae'n hanfodol bwysig bod cyllideb nesaf y Cynulliad (202[0]-21) yn adlewyrchu'r cynnydd sydd ei angen mewn buddsoddiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.”

29. Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch cyflawni Cymru carbon isel ar 25 Mehefin⁸, cyfeiriodd y Gweinidog at gynllun 10 pwynt y Comisiynydd, gan ddweud ei fod yn “ddefnyddiol iawn”, ond nad yw'r Comisiynydd yn:

“dweud o ble y dylem ni gael y £1 biliwn. Nid wyf i'n gwybod o ble y gallwn ni gael y £1 biliwn... yn y cyfnod hwn o gynt a'r holl alwadau sydd ar gyllideb Llywodraeth Cymru, mae dod o hyd i £1 biliwn mewn blwyddyn yn hollol afrealistig yn fy marn i.”

30. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor hwn y byddai'n anodd costio'r polisiâu a'r cynigion yn Ffyniant i Bawb, Cymru carbon isel, gan nad yw'r holl gamau gyda Llywodraeth Cymru, ni fydd Llywodraeth Cymru yn talu'r holl gost. Esboniodd fod y cynllun yn cynnwys polisiâu a chynigion ar draws cylch gwaith y Llywodraeth. Ychwanegodd y byddai'r broses graffu ar y gyllideb yn nodi sut y mae'r agenda datgarboneiddio yn cael ei datblygu ar draws Llywodraeth Cymru.

31. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor hwn ei bod yn croesawu cynllun y Comisiynydd, ond nododd fod y costau yn yr adroddiad yn ymddangos yn fawr iawn. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cytuno bod angen codiad yng ngwariant Llywodraeth Cymru ar weithgarwch datgarboneiddio. Dywedodd y byddai'n trafod y cynllun â'r Comisiynydd ymhellach.

⁸ <https://cofnod.cynulliad.cymru/Plenary/5668#A51959>

Ymgysylltu

- 32.** Pan sefydlwyd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, daeth Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (CCNH) i ben, a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i Swyddfa'r Comisiynydd. Mynegodd nifer o randdeiliad bryder ynghylch lefel yr ymgysylltu â newid hinsawdd, yn enwedig ers diddymu CCNH.
- 33.** Roedd nifer o randdeiliaid yn credu y bu gostyngiad wedi hynny mewn ymgysylltiad ag arbenigwyr newid hinsawdd yng Nghymru. Mynegodd rhanddeiliaid edifeirwch hefyd mai prin y bu'r cyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygu Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel.
- 34.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel y bydd yn cynnal Cynhadledd Newid Hinsawdd flynyddol i drafod y cynnydd a datblygu syniadau ar gyfer y dyfodol.
- 35.** Pwysleisiodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog bwysigrwydd cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn prif ffrydio datgarboneiddio fel pryder ar draws adrannau'r Llywodraeth. O ganlyniad i hynny, mae'n anochel y byddai hyn yn golygu ehangu'r mathau o randdeiliaid y mae'r Llywodraeth yn ymgysylltu â hwy. Dywedodd y byddai grwpiau ffocws yn cael eu sefydlu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r iteriad nesaf o'r cynllun. Byddai hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o ddiwydiant a'r Grŵp Cyngori ar Gyfiawnder Hinsoddol arfaethedig. Dywedodd y canlynol:
- “the First Minister said that the next plan needs to be an all-Wales plan, and so, as a team, we're trying to work out the best way in terms of co-ordination. We're recognising this is already a 200-page document. In an all-Wales plan, we obviously have got to try and work out how to do that, so we're already been speaking to the Confederation of British Industry, the Wales Council for Voluntary Action and the Welsh Local Government Association, in terms of representative bodies in trying to think, 'Okay, how can we all work together on this', and they're already doing some work in this area.”
- 36.** Aeth ymlaen i ddweud bod y gynhadledd newid hinsawdd flynyddol yn gyfle i ddod â rhanddeiliaid ar draws sectorau ynghyd.
-

37. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ynghylch y gynhadledd hon cyn iddi fod yn bresennol ar 20 Tachwedd. Dywedodd ei chyflwyniad ysgrifenedig y canlynol:

“Ym mis Hydref aethom ati i gynnal cynhadledd newid hinsawdd mewn ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd. Daeth 300 o bobl at ei gilydd, yn cynnwys arweinwyr busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Fel rhan o'r gynhadledd, dechreuodd sefydliadau wneud addewidion i gymryd camau gyda ni i ymuno â'r ymateb ar y cyd i'r argyfwng hinsawdd.”

38. Ymhelaethodd y papur ar gynlluniau'r gynhadledd, gan ddweud ei bod yn “fan cychwyn ar gyfer cyfraniad Cymru at Gynhadledd y Partïon y Cenhedloedd Unedig (COP 26) a gynhelir yn Glasgow yn 2020 a chyhoeddi ein Cynllun Cyflawni Cymru Gyfan yn 2021”. Dywedodd y cyflwyniad ysgrifenedig y byddai cynhadledd arall yn cael ei threfnu ar gyfer 2020, i gyd-fynd â COP26, “i rannu'r hyn mae Cymru yn ei wneud gyda'r byd”.

Grŵp Cyfiawnder Hinsawdd a newid ymddygiadol

39. Mae cynnig 2 o Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel, yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu Grŵp Cynghori ar Gyfiawnder Hinsoddol i “gyngori'r llywodraeth ar y newid i ffwrdd o economi seiliedig ar danwydd ffosil”. Dywed y cynllun fel a ganlyn:

“Byddwn yn llunio rhaglen dystiolaeth er mwyn ystyried sut y gellid integreiddio gwyddorau cymdeithasol ac ymddygiadol mewn gwaith cynllunio polisiau neu seilwaith effeithiol er mwyn newid ymddygiad. Bydd hyn hefyd yn galluogi dinasyddion i ymgysylltu â'r newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau yn ogystal â llesiant personol a chymdeithasol.”

40. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r cynnig yn cael ei ddatblygu'n ddiweddarach yn 2019. Hyd yn hyn, mae'r gwaith paratoi wedi canolbwyntio ar gwmpasu'r opsiynau ac ystyried sut y gallai grŵp o'r fath weithio. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar arfer da mewn mannau eraill, gan gynnwys yn yr Alban a De Awstralia, y mae'r ddwy ohonynt wedi

sefydlu grwpiau tebyg. Rhagwelwyd y byddai gwaith y Grŵp yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r iteriad nesaf o gynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

41. Awgrymodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog fod pwyslais cynyddol ar bwysigrwydd newid ymddygiadol wrth sicrhau gostyngiadau allyriadau. Dywedodd fod Prifysgol Caerdydd wedi sefydlu rhaglen ymchwil i drafod materion o'r fath. Dywedodd y canlynol:

“There is research going on in countless places to try and understand how behaviour change can be used as the key lever to achieve the decarbonisation ambitions we have, because ultimately we are all little climate change engines, as individuals, and we all have choices to make, and when I think about my own personal life, am I given the information or do I have access to the information that enables me to make informed decisions across a whole spectrum of how I live, how I heat my home, how I drive my car, et cetera? No, I don't feel as though I have. Government certainly has a role in that, but also businesses and communities have a role in that too.”

42. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Tachwedd, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch i ba raddau y byddai Cyllideb 2020-21 Llywodraeth Cymru yn drawsnewidiol, yn sgil y datganiad o argyfwng hinsawdd, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

“You're right, we've got to back it up with funding and with our policies and proposals, so we've focused our budget preparations on those eight priority areas....

Ahead of the budget, obviously, the Minister for Finance announced that further capital funding injection of £130 million for 2019-20. So, again, we've looked to invest that: £14.5 million in active travel and local transport fund, which is obviously about behavioural change; a £10 million investment in new homes, looking at the modular approach, moving towards making new homes low or zero-carbon; also I had some funding around renewable energy and the low-carbon energy economy as well.”

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod bod “Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel” yn gymwys i’r gyllideb garbon gyntaf a’r targed interim cyntaf, a fydd yn mynd â ni hyd at 2020. Nodwn hefyd mai bwriad y ddogfen yw edrych tua’r dyfodol, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hail gynllun carbon isel yn 2021. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif helaeth - 76 - o’r polisïau a’r cynigion a gynhwysir yn y ddogfen yn bodoli ymhell cyn datgan argyfwng hinsawdd.

Er bod cynifer o’r polisïau yn y Cynllun eisoes yn bodoli, mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym nad yw’n gallu bod yn benodol ynglŷn â chost y mesurau hyn na’u heffaith o ran lleihau allyriadau. Yn niffyg gwybodaeth o’r fath, mae’n anodd gweld sut y gall Llywodraeth Cymru asesu effaith neu werth am arian y polisïau hyn o ran datgarboneiddio.

Cyllideb 2019-20 oedd Cyllideb gyntaf y Cynulliad ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datgarboneiddio fel y 6ed flaenoriaeth yn ei rhaglen lywodraethu, sef “Ffyniant i Bawb”. Yn ein hadroddiad ar y Cyllideb ddrafft honno, gwnaethom fynegi siom a phryder ynghylch y diffyg pwyslais ymddangosiadol ar yr agenda datgarboneiddio. Fel y dywedodd y Gweinidog wrthym, bydd Cyllideb 2020-21 yn gyfle i Lywodraeth Cymru gefnogi ei datganiad o argyfwng hinsawdd gyda chamau gweithredu a chyllid cysylltiedig. Rydym yn disgwyl i’r Cyllideb hon gyflawni ymrwymiad y Gweinidog yn hyn o beth.

Byddwn yn disgwyl newid sylweddol yng Nghyllideb y flwyddyn hon, gan gynnwys dyraniadau cyllideb trawsnewidiol a radical. Bydd gennym ddiddordeb mewn gweld sut y mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu buddsoddiad mewn ymyriadau sy’n ymwneud â datgarboneiddio a newid hinsawdd. Byddwn hefyd yn disgwyl gallu gweld sut y bydd dyraniadau penodol yn effeithio ar ddatgarboneiddio.

Rydym yn nodi’r sylwadau gan y Gweinidog a’i swyddogion ynghylch ymgysylltu wrth ddatblygu’r iteriad nesaf o’r cynllun. Fodd bynnag, mae’r pryderon a fynegwyd i ni’n ymwneud â dyfnder y gwaith ymgysylltu, nid ei ehangder. Oes, mae angen i amrywiaeth o sectorau ymgysylltu â’r maes polisi hwn, ond mae gan rai sefydliadau ddyfnder arbenigedd gwirioneddol a allai fod yn amhrisiadwy wrth gynllunio ymateb i’r argyfwng hinsawdd. Mae

cynhadledd newid hinsawdd flynyddol yn annigonol. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn ymgysylltu'n ystyrlon â sefydliadau perthnasol wrth ddatblygu deddfwriaeth, targedau a chynlluniau yn y dyfodol.

Yn olaf, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu fersiwn o'r cynllun cyflawni carbon cyntaf i'r Pwyllgor hwn cyn iddo gael ei gyhoeddi. Cafodd ei ddarparu yn ystod yr wythnos y cafodd ei gyhoeddi. Nid yw hyn yn dderbyniol ac ni ddylai ddigwydd eto. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r iteriad nesaf o'r cynllun ymlaen llaw, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Argymhellion

Argymhelliad 6. Dylai Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru esbonio a dangos yn glir sut y bydd dyraniadau cyllid yn cefnogi'r flaenoriaeth datgarboneiddio.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru wneud darn o waith ar wahân, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, i asesu sut y gellid gwella ei hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd mewn pryd ar gyfer datblygu'r iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio a dylai gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno.

4. Sero-net erbyn 2050

Datganiad o argyfwng hinsawdd

43. Ddydd Llun 29 Ebrill 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig argyfwng hinsawdd yng Nghymru.

44. Gwnaed y cyhoeddiad yn dilyn datganiad tebyg gan Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban, mewn cynhadledd Plaid Genedlaethol yr Alban ddydd Sul 28 Ebrill. Ddydd Mercher 1 Mai, cymeradwyodd Senedd y DU gynnig yn datgan argyfwng hinsawdd.

45. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai'r rheswm ei bod wedi gwneud y datganiad oedd sbarduno'r gyfres o gamau gweithredu a gafwyd.

Rhybuddiodd ei bod yn bwysig cydnabod na all y Llywodraeth wneud hyn ar ei phen ei hun. Dywedodd fod yr ymateb i'w datganiad wedi rhagori ar ei disgwyliadau a bod Llywodraeth Cymru, wedi hynny, wedi cael ei boddi gan geisiadau am gymorth gan unigolion, cymunedau a busnesau. Aeth ymlaen i esbonio bod y datganiad hefyd wedi rhoi ychydig o hwb i awdurdodau lleol, mewn rhannau gwahanol o'r sector cyhoeddus, i weld beth y maent yn ei wneud.

46. Tynnodd y Gweinidog sylw'r Pwyllgor at ddogfen roedd ei swyddog yn ei dal, a oedd yn nodi'r holl gamau a gymerwyd ers i ni ddatgan argyfwng hinsawdd.

Cyngor PDUNH ar dargedau diwygiedig 2050

47. Ar 15 Hydref 2018, gofynnodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru i PDUNH roi cyngor ar dargedau tymor hir allyriadau nwyon tŷ gwydr a phontio'r DU i economi ddi-garbon net.⁹

48. Cyhoeddwyd ymateb PDUNH ym mis Mai 2019 a dywedodd y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban osod targedau sero-net (erbyn 2050 ar gyfer y DU, ac erbyn 2045 ar gyfer yr Alban). Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer gostyngiad 95 y cant o leiaf yn yr holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yn erbyn gwaelodlin 1990 erbyn 2050. Gan gyfeirio at briodoldeb y targed hwn, esboniodd PDUNH y canlynol:

“This target represents Wales's fair contribution to the UK target and hence to the Paris Agreement. It does not imply lower policy ambition or effort in Wales but reflects the large share of agriculture emissions in Wales and lower access to suitable sites to store captured CO2.”

49. Dywedodd PDUNH y gallai'r targed newydd hwn gael ei gyflwyno drwy ddeddfwriaeth yn 2020, ochr yn ochr â'r drydedd gyllideb garbon.

⁹ <https://www.theccc.org.uk/news-stories/consultations/>

50. Mewn datganiad ysgrifenedig¹⁰ a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin 2019, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ei bod yn bwriadu mynd ymhellach na'r targed a gynghorwyd gan PDUNH. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn derbyn cyngor PDUNH, ond dywedodd fod "yn rhaid i ni fynd ymhellach",

"Felly, ar ran Llywodraeth Cymru, rwyf yn datgan heddiw mai ein huchelgais yw cyflwyno targed lle bydd gofyn i Gymru gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050 fan hwyraf."

51. Eglurodd y Gweinidog y sefyllfa pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf. Dywedodd ei bod wedi derbyn cyngor PDUNH ac y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth yn 2020 i osod targed o ostyngiad 95 y cant o leiaf yn yr holl allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Roedd y targed sero-net yn uchelgais ac ni fyddai'n cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"I did say to the UK CCC that I wanted to look at how we could achieve net zero by 2050. So, we're the only country, obviously, to go beyond what the UK CCC has advised us we can do. So, I've got that ambition. The committee is looking at that for me—how we could do that. So there's a huge amount of work going on across Government."

52. Cadarnhaodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog y disgwyliwyd y byddai cyngor PDUNH ar gyflawni targed sero-net yn dod i law yn 2020.

Costau cyflawni'r targed sero-net

53. Nododd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)¹¹, sy'n cyd-fynd â Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018, gyfres o gostau sy'n gysylltiedig â llwybrau gwahanol ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2050.

54. Esboniodd yr RIA ei fod yn rhagweld y byddai cyflawni gostyngiad 80 y cant mewn allyriadau erbyn 2050 yn arwain at £50 biliwn (£1.5 biliwn yn flynyddol)

¹⁰ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-i-adroddiad-sero-net-y-pwyllgor-ar-newid-hinsawdd>

¹¹ <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld11811-em/sub-ld11811-em-w.pdf>

mewn costau ychwanegol. Byddai gostyngiad 85 y cant yn arwain at £64 biliwn (£1.9 biliwn yn flynyddol) mewn costau ychwanegol.

55. Nid oedd yr un o'r amcangyfrifon cost gan PDUNH na Llywodraeth Cymru yn edrych ar gyflawni gostyngiad 95 y cant (na sero-net) mewn allyriadau erbyn 2050.

56. Yn ei gyngor i Lywodraeth Cymru, amcangyfrifodd PDUNH mai oddeutu £30 biliwn yn ychwanegol fyddai cyfanswm cost cyflawni gostyngiad 80 y cant. Fodd bynnag, cydnabuwyd hyn gan Lywodraeth Cymru, a ddywedodd fod methodolegau gwahanol yn esbonio'r amrywiant yn yr amcanestyniadau cost. Cyfrifwyd costau PDUNH drwy addasu amcangyfrifon cost y DU ar gyfer Cymru, ond defnyddiodd Llywodraeth Cymru offeryn o'r enw "Cyfrifiannell 2050 Cymru", i fodelu ei hamcanestyniadau.

57. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 10 Gorffennaf, cyfeiriodd y Gweinidog at y ffigur £50 biliwn a gafodd ei gynnwys yn yr RIA sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau. Dywedodd y canlynol:

"I think the point of the analysis is to make the broad case to say, 'I think the costs are not that high.' I know £50 billion sounds a huge amount of money, but, as you say, option 1—do nothing—is far costlier. And I think we have to be very clear that that £50 billion is not going to come just from the Welsh Government. It's going to come from right across the economy. It includes businesses. It includes households. And the costs will change, because, as we have new innovations and technologies that we haven't even thought about, that will obviously have an impact on the cost."

58. Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd yr angen i ystyried y manteision posibl, yn ogystal â chostau ymyriadau polisi o'r fath.

59. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod PDUNH wedi amcangyfrif y byddai cyrraedd targed 95 y cant yn arwain at gostau 2 y cant yn uwch na'r targed presennol, sef 80 y cant. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"I know they've modelled the scenario that we retain our industrial base to keep our competitiveness and ensure that we're not going to

offshore. I've made that very clear—I don't want to offshore our emissions.”

60. Ychwanegodd nad oedd PDUNH yn credu nad yw'r dadansoddiad cost a budd sefydlog yn addas wrth geisio ystyried effaith y targedau tymor hwy.

61. Cadarnhaodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog nad oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal asesiad arall o'r costau sy'n deillio o'r newidiadau mewn targedau. Pwysleisiodd y swyddog mai diben Cyfrifiannell 2050 Cymru oedd modelu'r allyriadau, yn hytrach na'r effaith economaidd. Esboniodd y byddent yn edrych ar fodel Cymru 2050 o ran edrych ar y llwybr i gyrraedd y targed 95 y cant.

62. Gofynnodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog am werth ymgymryd ag amcanestyniadau ariannol tymor hir, yn enwedig yn sgil cyflymder y newid mewn rhai o'r sectorau dan sylw. Esboniodd y canlynol:

“I think the scale of the uncertainty is best, probably, expressed in the way that the UK CCC do it. So, when they first looked at a 60 per cent UK reduction, they estimated that it was probably 1 per cent to 2 per cent of GDP. Then, when the UK Government upped its ambition to 80 per cent, the UK CCC assessment was—. As their knowledge had increased, as the cost of certain technologies had come down, such as renewables, their estimate was around about 1 per cent to 2 per cent of GDP. And that's what they were advising us in just December 2017. But the work that they have done since, looking at, particularly, how will the energy system work with industry, and what might be the costs there, their assessment now, for net-zero, is around about 1 per cent to 2 per cent of GDP. So, I guess that that illustrates that, over the course of 10 years, going to 60 per cent decarbonisation is now, according to their models, the same as a net-zero decarbonisation on a UK basis.”

63. Dywedodd fod hyn yn dangos ansicrwydd amcanestyniadau tymor hwy. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“We can repeat the exercise that we did previously, which came to a similar conclusion on order-of-magnitude costs, or we can choose to

spend more of our time trying to encourage the development of the policies that will achieve the targets. That's where the focus has been recommended to the Minister—that we actually focus our efforts on the actions rather than economic analysis...”

Ein barn ni

Fel y gwnaethom esbonio ym Mhennod 2, rydym yn croesawu targed newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru, sef gostyngiad 95 y cant yn allyriadau Cymru erbyn 2050, gyda dyhead i gyflawni sero-net.

Bydd y newid yn nharged 2050 yn cael effaith ar y gyllideb garbon nesaf a thargedau interim yn y dyfodol. Bydd angen i ollyngiadau allyriadau ddigwydd ar drywydd “serthach” na’r hyn a ragwelwyd neu y rhoddwyd cyfrif amdano o’r blaen. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi esbonio eto beth y bydd angen i’r newidiadau hyn fod a pha effaith y byddant yn ei chael ar bolisiau. Dylai wneud hynny pan fydd yn cyflwyno’r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i newid y targedau.

Datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Byddem wedi disgwyl i ymyriadau polisi uchelgeisiol gael eu cyhoeddi yn dilyn cyhoeddiad o’r fath. Yn anffodus, ni chafwyd y camau gweithredu trawsnewidiol yr oedd y cyhoeddiad yn eu haddo yn ôl pob golwg. Yn hytrach, mae wedi bod yn “fusnes fel arfer”. Rydym yn credu y dylid rhoi gwybod i’r Cynulliad am benderfyniadau polisi a fyddai’n cynyddu allbwn carbon yn sylweddol.

Rydym yn deall ei bod yn anodd ac o werth amheus amcanestyn costau ymyriadau polisi hyd at 2050. Fodd bynnag, mae’n haws rhagweld y costau tymor byr a thymor canolig. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth am fanteision ariannol tymor hir posibl, gan gynnwys arbedion cost posibl, ei pholisiau i gyrraedd targed 2050. Rydym yn credu y byddai’r wybodaeth hon yn ddefnyddiol er mwyn hwyluso gwaith craffu effeithiol a hysbysu’r cyhoedd yng Nghymru am effaith polisiau Llywodraeth Cymru a’u costau a manteision cysylltiedig.

Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod offeryn Cyfrifiannell 2050 Cymru wedi’i ddatblygu er mwyn modelu gostyngiadau allyriadau. Mae eisoes wedi’i ddefnyddio i asesu’r polisiau yn y cynllun cyntaf. Nid oes rheswm pam na ddylid cyhoeddi’r data hyn. Ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes gwerth sicrhau bod yr offeryn hwn ar gael i’r cyhoedd dan drefniadau ffynhonnell agored.

Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi tynnu sylw'r Pwyllgor at ddogfen Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r camau roedd wedi'u cymryd ers datgan argyfwng hinsawdd. Rydym yn credu y dylid ei chyhoeddi.

Argymhellion

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad yn esbonio effaith y cynnydd yn y targed lleihau allyriadau 2050, o 80 y cant i 95 y cant, ar ei hamcanestyniadau a'i pholisïau. Dylai wneud hynny pan fydd yn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i newid y targedau.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o gostau, manteision ac effaith pob polisi a chynnig ar ddatgarboneiddio sydd yn yr iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dull, megis asesiad effaith carbon, i adrodd i'r Cynulliad am benderfyniadau polisi a fydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allbwn carbon.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad na fydd yn allyrru ar y môr. Dylai ymrwymo y bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn flynyddol am unrhyw allyru ar y môr a wneir gan Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus neu awdurdodau lleol.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru drafod a oes gwerth sicrhau bod y data modelu a gynhyrchir drwy ddefnyddio offeryn Cyfrifiannell 2050 Cymru ar gael dan drefniadau ffynhonnell agored.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei dogfen sy'n cynnwys manylion am y camau y mae wedi'u cymryd ers datgan argyfwng hinsawdd.